PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Arian - Mae angen peth arna i!

## Canllaw i bobl ifanc

Adnodd 3 o 12

VOICES FROM CARE CYMRU

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Cyllidebu
- Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau
- Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau- Addysg
- Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio

Prosiect Paratoi

Bydden ni i gyd yn hoffi cael rhagor o arian, ond gall fod yna adegau pan fydd gwir angen arian arnat ti. Mae'r canllaw yma'n trafod yr opsiynau sydd gen ti ar gyfer cael yr arian sydd ei angen. I ddechrau, byddwn ni'n edrych ar ffynonellau arian.

## Grantiau

Yn dibynnu ar dy incwm presennol o fudd-daliadau neu o swydd, efallai gallet ti gael grant. Mae grant yn arian sy'n cael ei roi i ti i'th helpu i dalu am eitem benodol. Does dim rhaid i ti dalu grant yn ôl:

- Siarad â'th Gynghorydd Personol am y grantiau gallet ti eu hawlio gan yr awdurdod lleol.
- Os oes gen ti blentyn, edrych ar yr adnodd sydd gennym ni i rieni
- Edrych ar yr adnodd sydd gennym ni am fudd-daliadau a hawl i fudd-daliadau i weld beth gallet ti ei gael tuag at gostau ynni
- Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn cynnig grantiau tuag at rai o gostau sylfaenol hyfforddiant neu swydd newydd
- Mae Capston Care Leavers Trust yn cynnig grantiau ar gyfer eitemau hanfodol i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

## Cyflogaeth

Os wyt ti mewn gwaith a bod angen rhagor o arian arnat ti, efallai byddi di am wneud y pethau yma:

- Holi a fydd goramser ar gael yn yr wythnosau nesaf
- Gwirio dy fod ti'n cael yr hyn mae gen ti hawl i'w gael trwy edrych ar yr adnodd sydd gennym ni ar Fudd-daliadau a Hawl i fudd-daliadau – cyflogaeth.
- Gwirio oes modd hawlio rhai budd-daliadau a gweithio ar yr un pryd. Edrych ar yr adnodd sydd gennym ni ar gyflogaeth neu cysyllta â'r Cyngor Ar Bopeth lleol

## Budd-daliadau

P'un a wyt ti'n gweithio neu beidio, efallai byddi di'n gallu hawlio rhai budd-daliadau. I wirio dy fod ti'n cael yr hyn mae gen ti hawl i'w gael, edrych ar:

- yr adnodd Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau rydyn ni wedi ei baratoi
- Siarad â'th Gynghorydd Personol
- Siarad â'th Anogwr Gwaith yn y Ganolfan Waith
- Siarad â'r Cyngor ar Bopeth lleol

## ISA Pobl Ifanc

- Os wyt ti wedi bod mewn gofal am fwy na 12 mis bydd yr awdurdod lleol wedi trefnu ISA Pobl Ifanc i ti
- Math o gyfrif cynilo yw hwn sy'n cael ei agor â swm o arian oddi wrth Lywodraeth Cymru
- Dylai gofalwyr maeth ac ati ychwanegu at y cyfrif nes dy fod ti'n 18 oed
- Unwaith byddi di'n troi'n 18, cei di gymryd yr arian i gyd os bydd ei angen arnat ti, neu ei gynilo yn rhywle arall nes bod angen rhywbeth arnat ti

## Benthyciadau

Mae'n bosib cael benthyciad o wahanol lefydd a byddwn ni'n trafod y rhain ar y tudalennau nesaf. Mae dau fath o fenthyciad fel rheol:

**Benthyciad wedi'i warantu** - bydd y cwmni'n gosod 'ased', h.y. tŷ neu gar, yn erbyn y swm rwyt ti'n ei fenthyg. Os byddi ar ei hôl hi gyda'r taliadau, gallan nhw gymryd dy gar/dŷ.

**Benthyciad heb ei warantu** - does dim rhaid gosod 'ased' yn erbyn hwn. Os byddi ar ei hôl hi gyda'r taliadau bydd ffioedd ychwanegol i'w talu.

Cofia siarad â'th gynghorydd personol bob tro cyn gwneud cais am fenthyciad

## Gwerthu Eitemau

Os oes gen ti bethau yn y tŷ dwyt ti ddim yn eu defnyddio bellach, fel dillad neu gêmau cyfrifiadurol, rho gynnig ar eu gwerthu nhw i godi'r arian sydd ei angen.

Gelli di roi cynnig ar werthu eitemau yn y mannau hyn:

- grwpiau prynu/gwerthu ar eBay neu Facebook
- Shpock
- Siop leol sy'n cyfnewid gêmau cyfrifiadurol

# I ble galla i fynd i fenthyg arian?

COFIA - Os wyt ti'n defnyddio unrhyw un o'r pethau isod, rwyt ti'n benthyg arian a byddi mewn dyled. Mae'n bosib na fydd rhai cwmnïau'n sôn am ddyled/fenthyg/fenthyciad yn eu hysbysebion. Dim ond ar ôl i ti droi'n 18 oed y cei di fenthyg arian

**PWYLLA!!**

Cyn benthyg arian o unrhyw le, cer i siarad â'th Gynghorydd Personol. Efallai y bydd yn gallu helpu i gael hyd i ateb gwahanol - fel grant

## Undeb Credyd - Benthyciad
***Gwiria'r gyfradd ganrannol flynyddol (APR)***

## Cerdyn Credyd
***High interest if you do not pay it off each month***

## Prynu Nawr a Thalu Wedyn
***Gwiria'r gyfradd ganrannol flynyddol (APR)***

## Benthyciad diwrnod cyflog
***Gofala osgoi'r rhain! Mae'r llog yn uchel iawn fel arfer***

## Prynu trwy gynllun cyllido
***Gwiria'r gyfradd ganrannol flynyddol (APR)***

## Rhentu i Brynu
***gwiria APR. Mae'n uchel/ ddrud iawn fel arfer***

## Prynu nawr a thalu mewn rhandaliadau (bob yn dipyn)
***Gwiria'r gyfradd ganrannol flynyddol (APR)***

## Banc - Benthyciad
***Gwiria'r gyfradd ganrannol flynyddol (APR)***

## Banc - Gorddrafft

**PWYLLA!!**

### Pethau pwysig i'w cofio

P'un a wyt ti'n benthyg £10 neu £1000, bydd benthyciad gen ti.
RHAID i ti wneud dy daliadau wythnosol/misol
Os na fyddi di'n gwneud hynny:

- **Bydd ffioedd ychwanegol**
- **Gall y cwmni fynd â thi i'r llys**
- **Bydd yn effeithio ar dy siawns o fenthyg arian yn y dyfodol**

Wyt ti angen y peth rwyt ti am ei brynu neu ai dim ond eisiau fe wyt ti?
Paid â benthyg arian i brynu rhywbeth dwyt ti ddim wir ei angen.
Os oes angen y peth arnat ti, siarad â'th gynghorydd personol yn gyntaf.
Pa mor daer bynnag yw dy angen am arian, PAID â defnyddio benthyciwr stepen drws (benthyciwr arian didrwydded – loan shark). Mae'r rhain yn fenthycwyr anghyfreithlon: byddan nhw'n aflonyddu arnat ti er mwyn cael eu harian yn ôl ac mae'n bosib byddan nhw'n dal i fynnu bod arnat ti arian iddyn nhw ar ôl i ti dalu'r ddyled yn ôl.

- I gael rhagor o wybodaeth

www.direct.gov.uk/stoploansharks

- Siarad â'th Gynghorydd Personol
- Cysyllta â'r Cyngor ar Bopeth lleol

**BENTHYG ARIAN**

Cyn benthyg arian o unrhyw le, cer i siarad â'th Gynghorydd Personol. Efallai y bydd yn gallu helpu i gael hyd i ateb gwahanol - fel grant

Ar y dudalen hon rydyn ni'n edrych ar y benthyciadau rwyt ti'n gallu eu trefnu at bwrpasau gwahanol. Allwn ni ddim gwarantu byddi di'n cael defnyddio rhai neu bob un ohonyn nhw

## Banc - Gorddrafft

Bwriad gorddrafft yw bod yn rhwyd ddiogelwch tymor byr yn dy gyfrif cyfredol. Cei di ei drefnu gyda'r banc ymlaen llaw.

- **Gorddrafft wedi'i drefnu** - rwyt ti wedi cytuno bod swm penodol ar gael i'w wario ar ben beth sydd yn y cyfrif
- **Gorddrafft heb ei drefnu** - does dim trefniadau/cytundeb gyda'r banc felly gallet ti wynebu ffioedd uchel am bob diwrnod y byddi mewn gorddrafft
- Pa fath bynnag o orddrafft sydd gen ti, mae'n debygol y bydd ffioedd dyddiol. Mae'r rhain yn gostus ac yn gallu cynyddu'n gyflym.
- Gall banc ddewis tynnu gorddrafft yn ôl ar unrhyw adeg

### HELP!!

- Os wyt ti wedi benthyg arian ac yn cael trafferth cadw i fyny â'r taliadau, cer i siarad â'r banc/undeb credyd cyn gynted â phosib i weld pa opsiynau sydd ar gael.
- Gallet ti siarad â'r Cyngor ar Bopeth lleol hefyd

## Undeb Credyd - Benthyciad

- Mae Undebau Credyd yn cynnig cynilion a benthyciadau i'w haelodau.
- Fel arfer, chei di ddim benthyg arian ganddyn nhw oni bai bod gen ti gyfrif cynilo gyda nhw
- Fel rheol, mae'r cyfraddau llog yn is na llawer math arall o fenthyca
- Cei wneud taliadau wythnosol neu fisol fel arfer
- Mae'n bosib benthyg swm bach neu swm mawr

Rhondda Cynon Taf:

- Dragon Savers Credit Union
- 01443 777043

## Moneyline - Benthyciadau

- Dewis arall yn lle benthyciadau diwrnod cyflog
- Mae'n cynnig benthyciadau gwerth hyd at £1500
- Gellir talu'r rhain bob wythnos, bob pythefnos neu bob mis
- Maen nhw'n ystyried a wyt ti'n gallu fforddio talu'r benthyciad yn ôl yn hytrach nag edrych ar dy sgôr credyd
- **https://www.moneyline-uk.com/**

## Banc - Benthyciad

Mae hwn yn gytundeb ffurfiol gyda'r banc lle byddi'n benthyg swm penodedig o arian dros hyn a hyn o amser.
Bydd y banc yn gwneud y canlynol yn glir:

- y taliadau misol
- y cyfanswm sydd i'w dalu (gan gynnwys y llog)
- faint rwyt ti wedi'i fenthyg

PWYLLA!!

#### Cyfraddau Llog

- COFIA:- pwy bynnag sy'n rhoi benthyg arian i ti, bydd llog i'w dalu bron bob amser.
- Llog yw'r tâl mae'r banc neu'r cwmni'n ei ychwanegu at y swm rwyt ti wedi'i fenthyg.
- Enw arall ar hyn yw cost benthyg
- Gall llog gael ei godi yn ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol. Gofala dy fod ti'n gwybod pa un sy'n berthnasol i ti
- Gall cyfraddau llog achosi dryswch. Y ffigur allweddol i'w ddefnyddio wrth gymharu cyfraddau yw'r Gyfradd Ganrannol Flynyddol (APR)

# DULLIAU ERAILL O FENTHYG

Cyn benthyg arian o unrhyw le, cer i siarad â'th Gynghorydd Personol. Efallai y bydd yn gallu helpu i gael hyd i ateb gwahanol - fel grant

Mae'r canlynol yn ddulliau o fenthyg arian pan fyddi'n siopa. Efallai nad ydyn nhw'n cael eu hysbysebu fel benthyciadau neu ddulliau o fenthyg arian ond dyna beth ydyn nhw.

## Cerdyn Credyd

Yn ei hanfod, os wyt ti'n gwneud cais am gerdyn credyd, mae'n rhoi'r dewis i ti brynu pethau nawr a thalu amdanyn nhw yn nes ymlaen.
Byddi'n cael adroddiad bob mis sy'n dangos faint rwyt ti wedi'i wario, a faint o ddyled sydd gen ti.
Pan gei di'r adroddiad, mae tri dewis:

- **Y DEWIS GORAU** Talu'r swm cyfan ar ddiwedd pob mis (i osgoi talu llog) NEU
- Talu'r swm misol lleiaf sy'n ddyledus. Bydd hyn yn gadael balans sylweddol a fydd yn denu llog NEU
- Talu swm sydd rywle rhwng yr isafswm sy'n ofynnol a'r cyfanswm. Bydd hyn yn gadael balans a fydd yn denu llog.
- **Er enghraifft, rwyt ti'n gwario £200 mewn mis ac yn talu £50. Bydd llog i'w dalu ar y £150 sydd ar ôl**

## Cynllluniau Cyllido

- Mae'n bosib bydd rhai siopau'n cynnig dewisiadau 'cyllido' ar gyfer eitemau mwy fel cwcer neu beiriant golchi dillad.
- Mae hynny'n golygu byddi di'n talu'n fisol am yr eitem (neu mae prynu eitemau ail law yn rhatach)
- Bydd angen i ti dalu llog ar yr arian
- Does dim sicrwydd y bydd dy gais am fenthyciad yn cael ei dderbyn
- Gofala dy fod ti'n deall cost lawn y math yma o fenthyciad.

### Llesiant

Os yw materion ariannol yn effeithio ar dy iechyd meddwl, mae cynghorion llesiant ar gael yma: https://platfform.org/cy/project/pobl-ifanc/

### Wyddet ti?!

- Os nad wyt ti'n hoffi siarad â phobl dros y ffôn neu wyneb yn wyneb mae'n bosib cael cyngor ar ddyledion trwy WhatsApp!
- Cysyllta â'r **Gwasanaeth Cynghori Ariannol** trwy WhatsApp ar 07701 342744 i gychwyn arni

## Rhentu i Brynu

- Mae rhai o siopau'r stryd fawr yn cynnig cynlluniau taliadau wythnosol am nwyddau.
- Mae'r rhain yn ymddangos yn ddeniadol gan fod y taliadau wythnosol yn isel yn ôl pob golwg ond mae angen i ti fod yn gwbl ymwybodol o'r gost lawn o gymharu â mathau eraill o fenthyg arian (edrych ar y dudalen nesaf)

## Prynu Nawr a Thalu Wedyn

Bellach, mae llawer o siopau'r stryd fawr yn cynnig dewis i brynu eitemau nawr a thalu amdanyn nhw:

- ymhen 30 diwrnod
- mewn tri rhandaliad unigol

Fel rheol, mae'r cynlluniau hyn yn ddi-log ond rwyt ti'n dal i fenthyg yr arian a bydd angen i ti ystyried a wyt ti'n gallu fforddio'r eitemau mewn gwirionedd neu beidio. Os byddi di ar ei hôl hi gyda'r taliadau, bydd hynny'n arwain at ffioedd ychwanegol ac yn effeithio ar dy statws credyd.

Gofyn i'th Gynghorydd Personol a fydd hi'n bosib i ti gael grant i brynu nwyddau gwynion fel oergell a pheiriant golchi dillad.

**PWYLLA!!**

Cyn benthyg arian o unrhyw le, cer i siarad â'th Gynghorydd Personol. Efallai y bydd yn gallu helpu i gael hyd i ateb gwahanol - fel grant

Dyma rai enghreifftiau o gost benthyca i brynu teledu ac oergell/rhewgell.

## Enghraifft o gost wythnosol Oergell/Rhewgell

- Siop Stryd Fawr (Cynllun cyllido)

**£2.47 yr wythnos**

- Undebau Credyd (Benthyciad)

**£2.71 yr wythnos**

- Cwmni Rhentu i Brynu

**£3.35 yr wythnos**



Oergell/Rhewgell Beko BE1552FFW

***Cost talu ymlaen llaw £279***

## Enghraifft o Gyfanswm Cost Oergell/Rhewgell

- Siop Stryd Fawr (Cynllun cyllido)

£385.56 = **£106.56 yn fwy na'r gost ymlaen llaw**

- Undeb Credyd (Benthyciad)

£420.94 = **£141.94 yn fwy na'r gost ymlaen llaw**

- Cwmni Rhentu i Brynu

£522.60 = **£243.60 yn fwy na'r gost ymlaen llaw**

## Enghraifft o gost wythnosol y teledu

Siop Stryd Fawr (Cynllun cyllido)

**£4.24 yr wythnos**

- Undeb Credyd (Benthyciad)


**£4.51 yr wythnos**

- Cwmni Rhentu i Brynu

**£6.74 yr wythnos**

55” Teledu clyfar HDR 4k Samsung SA55RU710

**Cost talu ymlaen llaw £479**




- Enghreifftiau yn unig yw'r ffigurau hyn.
- Yn seiliedig ar fenthyciad dros dair blynedd
- Seiliwyd y ffigurau ar yr wybodaeth oedd ar gael ar-lein ar 15 Tachwedd 2019

## Enghraifft o Gyfanswm Cost y teledu

- Siop Stryd Fawr (Cynllun cyllido)

**£662.40 = £183.40 yn fwy na'r gost ymlaen llaw**

- Undeb Credyd (Benthyciad)

**£702.04 = £223.04 yn fwy na'r gost ymlaen llaw**

- Cwmni Rhentu i Brynu

**£1051.44 = £572.44 yn fwy na'r gost ymlaen llaw**

**PWYLLA!!**

**Enghraifft o Fenthyciwr Arian Didrwydded**

- Roedd mam wedi benthyg £50 gan 'ffrind' i dalu am wisg ysgol i'w merch.
- Cytunodd i dalu £100 yn ôl.
- Yna, roedd angen rhagor o arian arni felly fe fenthyciodd £200 arall gan gytuno i dalu £400 yn ôl.
- Roedd hi ar ei hôl hi gyda'r taliadau
- Yna, dechreuodd y bygythiadau
- Gwthiodd dynion eu ffordd i mewn i'r tŷ a chymryd y teledu a chyfarpar trydanol arall
- Cafodd rhagor o arian ei ychwanegu at y benthyciad
- Fe wnaeth y bygwth barhau, gan gynnwys bygythiadau uniongyrchol i'w phlant

# PETHAU ERAILL I FEDDWL AMDANYN NHW

Cyn benthyg arian o unrhyw le, cer i siarad â'th Gynghorydd Personol. Efallai y bydd yn gallu helpu i gael hyd i ateb gwahanol - fel grant

## Cynlluniau Arian Rhwydd ('Easy Money' yn Saesneg)

- Gwylia rhag sgamiau sy'n gofyn i ti gadw arian yn dy gyfrif ar ran rhywun arall
- Mae'n bosib y byddan nhw'n cael eu hysbysebu fel swyddi ar y cyfryngau cymdeithasol gyda theitlau fel 'asiant trosglwyddo arian', 'proseswyr lleol'
- Neu gallen nhw gael eu hysbysebu fel benthyciad 'hwylus'
- Pan ddaw'r arian i mewn i'th gyfrif bydd gofyn i ti drosglwyddo'r arian i rywun arall gan gadw swm bach i ti dy hun
- Mae'r cynllun hwn yn fodd i droseddwyr 'lanhau' arian brwnt o weithgareddau troseddol
- Byddi di'n dod yn asyn arian ('money mule' yn Saesneg)
- Byddi di'n cyflawni gweithred droseddol a gallet ti gael dy anfon i'r carchar a'th atal rhag cael cyfrif banc neu fenthyg arian yn y dyfodol.

**Asynnod arian**

- I gael cyngor ar adnabod cynlluniau arian rhwydd, cer i: **https://www.moneymules.co.uk/**




Dyma rai pethau eraill dylet ti feddwl amdanyn nhw a'u hosgoi wrth chwilio am ragor o arian

## Benthycwyr Arian Didrwydded

- Gall benthyciwr arian didrwydded fod yn rhywun rwyt ti'n ei adnabod yn y gymdogaeth
- Gall fod yn 'ffrind' hyd yn oed
- Bydd yn treulio amser yn dy berswadio i'w drystio cyn rhoi benthyciad i ti
- Ond fydd yna ddim gwaith papur ar gyfer y benthyciad
- Mae'n bosib bydd yn gofyn i ti am dy basbort fel 'gwarant'
- Gallai ddefnyddio trais i gael yr arian yn ôl

- I gael cyngor ar osgoi benthycwyr arian didrwydded, cer i: **https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/how-to-spot-a-loan-shark#how-to-spot-a-loan-shark**

## Rhoi benthyciad i deulu/ffrindiau

- Efallai byddi di'n awyddus i helpu dy deulu, ond wyt ti'n gallu fforddio benthyg arian iddyn nhw
- Fyddan nhw'n talu'r ddyled yn ôl neu'n cadw gohirio?
- Pan fydd angen arian arnat ti mae gen ti ddewisiadau ac mae'r un dewisiadau gan dy deulu/ffrindiau, felly ddylai bod dim angen iddyn nhw ofyn i ti
- Siarad â'th gynghorydd personol ar unwaith er mwyn iddyn nhw allu dy helpu.

## Cyngor ar Bopeth

I gael cymorth gydag amrywiaeth o faterion gan gynnwys:

- Cyngor ynghylch dyledion
- Cyngor ynghylch budd-daliadau
- Grantiau a chynghorion arbed ynni

Bydd Cyngor ar Bopeth ar gael yn lleol, neu cysyllta â rhif Adviceline Cymru:

NEU

- **https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/**

# CYMORTH GYDA DYLEDION

ARGYFWNG! Os yw cael arian i dalu am bethau, gan gynnwys bwyd, yn anodd iawn i ti, edrych ar yr wybodaeth isod i gael rhagor o gymorth

## Dyled

Os wyt ti'n cael trafferth gyda dyled ac ar ei hôl hi gyda'th daliadau:

- Cysyllta â'r Cyngor ar Bopeth lleol
- Siarad â'th Swyddog Cymorth Tenantiaeth (os oes gennyt un)
- Siarad â'th gynghorydd personol
- Cer i: **https://www.stepchange.org/** **https://www.turn2us.org.uk/**

## Gamblo

Wyt ti:

- Yn gwario mwy ar gamblo nag wyt ti eisiau?
- Yn cael trafferth talu'r biliau?
- Yn trefnu benthyciadau i dalu dy ddyledion gamblo?

I gael cymorth a chefnogaeth, cer i:
**https://www.gamcare.org.uk/**

## Bwyd

- Os wyt ti heb arian i brynu bwyd hyd yn oed, mae'n bosib cael pecyn bwyd argyfwng o Fanc Bwyd lleol.
- Rhaid i ti gael taleb gan y gwasanaethau cymdeithasol, Cyngor ar Bopeth neu asiantaeth arall.
- Byddi'n cael digon o fwyd am 3 diwrnod
- I gael rhagor o wybodaeth, cysyllta â'th fanc bwyd lleol neu siarad â'th gynghorydd personol

## Pontypridd Foodbank

- Mae angen i ti gael taleb ddilys er mwyn cael cymorth gan dy fanc bwyd
- Lleoliad: St Lukes Church, Cardiff Road, Rhydyfelin, Pontypridd, CF37 5LG
- Amseroedd agor: Monday and Friday 2-4pm and Wednesday 10am-12

## Taff-Ely Foodbank

- Mae angen i ti gael taleb ddilys er mwyn cael cymorth gan dy fanc bwyd
- Main Location: Bethel Baptist Centre, Heol Miskin, Pontyclun, CF72 9AJ
- This Foodbank has different centres go to the website below for opening times: **https://www.trusselltrust.org/get-help/find-a-foodbank/taffely/**

## Rhondda Foodbank

- Mae angen i ti gael taleb ddilys er mwyn cael cymorth gan dy fanc bwyd
- Main Location: Rhondda Foodbank, 236-237 East Road, Tylorstown, Ferndale CF43 3DA
- This Foodbank has different centres go to the website below for opening times: **https://www.trusselltrust.org/get-help/find-a-foodbank/rhondda/**

# CYMORTH GYDA DYLED TANWYDD

**Cyngor ar Bopeth**

I gael cymorth gydag amrywiaeth o faterion gan gynnwys:

- Cyngor ynghylch dyledion
- Cyngor ynghylch budd-daliadau
- Grantiau a chynghorion arbed ynni

Bydd Cyngor ar Bopeth ar gael yn lleol, neu cysyllta â rhif Adviceline Cymru:

NEU

- **https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/**

ARGYFWNG! Os yw cael arian i dalu am nwy/drydan ac ati yn anodd iawn i ti, darllen yr wybodaeth isod i gael rhagor o gymorth

## Opsiynau os wyt ti mewn dyled tanwydd

- Cysyllta â'r cyflenwr i drafod cynllun ad-dalu a/neu unrhyw opsiynau tariff rhatach sydd ar gael
- Os wyt ti'n hawlio rhai budd-daliadau penodol, mae'n bosib trefnu bod taliadau'n cael eu cymryd yn uniongyrchol o'th fudd-daliadau
- Os oes gen ti broblemau ariannol difrifol a dyled fawr, mae'n bosib gwneud cais i gronfa ymddiriedolaeth ynni neu ymddiriedolaeth elusennol

## Cronfa Cymorth Cwsmeriaid

- Cynllun mae Ddŵr Cymru yn ei gynnig, os wyt ti'n cael trafferth cadw i fyny â'th fil dŵr
- Bydd yn gwneud y taliadau'n haws eu rheoli
- Rhandaliadau llai a realistig i'w talu
- Os byddi'n parhau â'r taliadau am 6 mis, caiff dy ddyled ei haneru
- Os byddi'n parhau â'r taliadau am 6 mis arall, bydd dy ddyled wedi'i chlirio

- Os wyt ti'n caael trafferth talu dy filiau, siarad â'th gyflenwr ynni ar unwaith.
- Po gynharaf y byddi di'n cysylltu, mwyaf o gymorth fydd ar gael i ti.

## Cronfa Cymorth Dewisol

- Os yw hi'n argyfwng arnat ti neu os wyt ti'n wynebu problemau ariannol difrifol, mae'n bosib gwneud cais i'r gronfa cymorth dewisol
- Gallai dy helpu i dalu biliau bwyd/ynni
- Byddet ti'n cael £50
- Cei di gyflwyno cais hyd at dair gwaith mewn blwyddyn
- I wneud cais, ffonia

## Heat and Save Team

Rhondda Cynon Taf have a dedicated energy team. They can help with

- Energy debt
- Damp and/or condensation issues
- Advice on how to deal with expensive tariffs
- Energy Saving tips
- Grants or assistance you may be able to get
- And more.....

Contact them on
heatandsave@rctcbc.gov.uk;
01443 281136